Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

Crynodeb Gweithredol 2009 -2012

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae ein crynodeb gweithredol o'r Cynllun hwn ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill gan gynnwys Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd ei Ddarllen.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod inni.

Rydym yn croesawu adborth am ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Gallwch wneud hyn, neu ofyn am fformatau eraill, gan ddefnyddio'r manylion isod:

Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ystafell 3.13
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ehrd@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 2080 1067
Ffôn: 029 2082 3772
http://newydd.cymru.gov.uk/topics/equality/?skip=1&lang=cy

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5187 1
© Hawlfraint y Goron Mai 2009
CMK-22-04-045(288)
E0400910

Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynlluniau Gweithredu 2009-2012

1 Crynodeb Gweithredol

Dyma Gynllun Cydraddoldeb Sengl a chynlluniau gweithredu cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn ffordd allweddol o'n cynorthwyo i gadw'n hymrwymiad at y weledigaeth a geir yn "Cymru'n Un" sef economi ddeinamig, gwell iechyd, ffordd o fyw o safon a chymunedau cynaliadwy mewn Cymru amrywiol a dwyieithog.

Bydd yn gymorth i gadw'n hymrwymiad i gymdeithas decach a chyfiawn.

Datblygwyd y ddogfen hon yn dilyn y broses ymgysylltu ac ymgynghori dri cham a fabwysiadwyd gennym sy'n cynnwys: rhag-ymgynghori ar faterion cydraddoldeb allweddol (Tachwedd 2007 - Ionawr 2008); ymgynghori ar fframwaith a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Sengl (Mawrth - Mehefin 2008) ac ymgynghori ar y Cynllun drafft a'i gynlluniau gweithredu (Hydref 2008 - Ionawr 2009).

Mae'r safbwyntiau a'r sylwadau a gawsom yn ystod y broses wedi cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'r cynlluniau gweithredu adrannol.

Mae'r cynlluniau gweithredu'n dangos y prif gamau gweithredu y bydd ein hadrannau am ymgymryd â hwy dros y tair blynedd nesaf er mwyn cyflawni eu hymrwymiad i hybu cydraddoldeb.

Mae rhai o'r gweithgareddau sy'n ymddangos yn y cynlluniau gweithredu hyn yn ymrwymiadau a nodwyd mewn cynlluniau a rhaglenni gwaith blaenorol. Datblygwyd rhai eraill o ganlyniad i ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac adborth o'r ymgynghoriad.

Mae adolygiadau bob chwe mis wedi'u cynnwys yn rhan o weithredu'r Cynllun er mwyn sicrhau bod gennym gyfle i bwyso a mesur ac adolygu ein cynlluniau, ac i ystyried gofynion deddfwriaethol newidiol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i ddinasyddion ac sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym wedi ymrwymo i weithio ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwell gwasanaethau a gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Bydd y Cynllun hwn yn gymorth inni ddangos sut yr ydym yn cyflawni'n dyletswyddau o dan y gyfraith gydraddoldeb fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n dweud sut y byddwn yn hybu cyfle cyfartal i bawb, a sut yr ydym yn cydnabod amrywiaeth ac yn rhoi gwerth arni. Rydym am fynd ymhellach na chyflawni'n cyfrifoldebau cyfreithiol i hybu cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd, rhywedd a hil. Byddwn yn cymhwyso'r un egwyddorion eang i'r meysydd cydraddoldeb newydd - oedran, crefydd a chred neu heb gred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywioldeb.

Mae anghenion siaradwyr Cymraeg yn bwysig hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ymdrinnir â hyn drwy gyfrwng y Cynllun Iaith Gymraeg.

Wrth gynhyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod, er bod elfennau sy'n gyffredin i bob dyletswydd cydraddoldeb, fod iddynt hefyd eu helfennau gwahanol, penodol a'r rheini'n unigryw i bob un o'r tair dyletswydd. Mae'r rhain yn golygu bod pob dyletswydd yn unigryw ac yn arbennig o berthnasol i'w maes cydraddoldeb penodol.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau ein gwaith yng nghyswllt hil, anabledd a rhywedd. Bydd angen inni weithio'n effeithiol gyda'n holl bartneriaid i sicrhau cynnydd wrth gyflawni'r agenda flaengar hon.

Dyma sylfeini ein gwaith yng nghyswllt cydraddoldeb, amrywiaeth, cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol:

- Sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n ymwneud ag amrywiaeth y boblogaeth yng Nghymru ac yn ymwneud ag anghydraddoldebau a wynebir gan wahanol grwpiau ac unigolion.
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn bwrw gwreiddiau wrth inni ddatblygu polisïau a strategaethau drwy ddefnyddio'r broses Creu Polisïau Cynhwysol (Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb).
- Gweithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid er mwyn bwrw ymlaen â'n gwaith.
- Sicrhau bod gan ddinasyddion Cymru lais mewn datblygu polisïau a'u rhoi ar waith.
- Ystyried a hybu cyfleoedd i weithio ar draws y meysydd a chydweithio.
- Monitro a phwyso a mesur ein gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

2 Ein Blaenoriaethau

Yn sgil yr adborth i'n hymgynghoriad, llwyddwyd i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu a llunio cynlluniau gweithredu'r adrannau. Mae'r cynlluniau gweithredu hynny'n cyd-fynd â'r cynllun hwn a byddant yn gyfrwng ymarferol i'w roi ar waith.

Isod, ceir golwg gyffredinol ar yr hyn y mae pob adran yn ei wneud a blaenoriaethau'r adrannau hynny fel y'u rhestrir yn y cynlluniau gweithredu terfynol. Mae llawer mwy o fanylion yn y cynlluniau gweithredu sy'n rhan o'r Cynllun.

Gall y rhain newid drwy gydol oes y Cynllun.

2.1 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu

Mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu yn cefnogi Gweinidogion Cymru er mwyn eu cynorthwyo i wireddu a chyfleu eu polisïau a'u rhaglenni ac mae'n hysbysu staff ynglŷn â datblygiadau perthnasol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Adran hefyd yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod pobl yn deall ei hymrwymiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bod y rheini'n cael eu rhoi ar waith. Mae hefyd yn hyrwyddo'r ymrwymiad statudol bod cyfle cyfartal i bawb yn sail i bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.1.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Sicrhau bod y polisïau'n rhoi sylw i amrywiaeth pobl Cymru, gan geisio sicrhau y caiff holl ofynion cyfathrebu eu diwallu.
- Derbyn ceisiadau ac enwebiadau am Anrhydeddau a Phenodiadau Cyhoeddus sy'n adlewyrchu'n gyffredinol amrywiaeth bywyd Cymru.

2.2 Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Nod yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw sbarduno gwell gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'n ceisio darparu addysg a hyfforddiant i gefnogi pobl Cymru wrth iddynt gyflawni eu potensial academaidd, cymdeithasol ac economaidd. Nod yr Adran yw sicrhau gwell canlyniadau i blant, i ddysgwyr, i gymunedau, i fusnesau ac i gyflogwyr.

2.2.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Hybu lles pob plentyn a pherson ifanc drwy: roi cymorth iddynt gyflawni hyd eu heithaf; sicrhau y gall pob un ohonynt elwa o addysg ffurfiol, dysgu anffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol; ac amddiffyn eu hawliau a'u haeddiant.

- Gwella'r canlyniadau i ddysgwyr a gwella'u lles drwy gyfrwng: cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau a threfniadau asesu cysylltiedig; diwygio cymwysterau a datblygu'r fframwaith credydau ar gyfer pob oedran; canolbwyntio ar effeithiolrwydd ysgolion a datblygiad proffesiynol ymarferwyr.
- Arwain cyfraniad y system addysg a hyfforddiant ôl-16 at alluogi pob dysgwr, gan gynnwys y rheini o grwpiau dan anfantais a'r rhai sydd heb eu cynrychioli'n deg. Sicrhau Cymru hynod addysgedig a sgilgar, sy'n gyforiog o gyfleoedd cyflogaeth. Adnabod a blaenoriaethu anghenion cyflogwyr, dysgwyr, cymunedau a Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gwybodaeth a sgiliau. Galluogi sefydliadau addysg a hyfforddiant i fod yn hyblyg, o safon uchel ac yn ymatebol i anghenion cenedlaethol a lleol.
- Hybu cynhwysiant, lleihau anfantais a mynd i'r afael â thlodi cyfleoedd addysgol drwy ddatblygu rhaglenni, polisïau a chynhyrchion sy'n rhoi sylw i anghenion dysgwyr o bob oedran, gan gynnwys y rhai y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n cael eu hallgáu. Darparu cymorth ariannol yn llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr a dysgwyr eraill mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r Adran yn cydweithio ochr yn ochr â Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) er mwyn hybu rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. At y diben hwnnw mae Estyn yn darparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o'r radd flaenaf sy'n berthnasol i amgylchiadau ac anghenion unigryw Cymru.

Mae'r Arolygiaeth yn ymrwymedig i sicrhau fod ei gweithrediadau mewnol yn deg ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn ddiwahân, ni waeth beth yw eu rhywedd, hil, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, iaith, gallu, oedran, crefydd neu eu cyfeiriadedd rhywiol.

Drwy ei Fframwaith Arolygu Cyffredin, mae Estyn yn sicrhau fod asesu i ba raddau y mae darparwyr addysg a hyfforddiant yng Ngymru yn hyrwyddo amrywiaeth, yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb ac â'r safonau a ddisgwylir ar gyfer sicrhau mynediad a chyfle i ddysgwyr ni waeth beth yw eu rhywedd, hil, tarddiad ethnig, oedran, crefydd neu eu cyfeiriadedd rhywiol, yn rhan annatod o'i waith.

2.3 Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

Gweledigaeth Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yw i Gymru greu economi fywiog yng Nghymru, gan sicrhau twf cadarn a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb. Rhai o feysydd gwaith yr Adran yw hybu diwydiant a buddsoddi, polisi trafnidiaeth, a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

2.3.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Darparu gwasanaeth cymorth i fusnesau ledled Cymru sy'n wirioneddol agored i bawb ac sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion pobl ym mhob un o'r meysydd cydraddoldeb.
- Integreiddio ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn well wrth adfywio.
- Darparu system drafnidiaeth effeithlon a hwylus i bawb sy'n gymorth i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi diffyg cydraddoldeb.

2.4 Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynaliadwy i bobl Cymru ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Adran yn hybu datblygu cynaliadwy drwy gyfrwng y strategaeth amgylcheddol, drwy'r system cynllunio a thrwy reoli'n tirweddau mewn modd cynaliadwy. Mae'n cymryd camau i leihau cyfraniad Cymru at newid yn yr hinsawdd ac yn gweithredu i liniaru effaith y newid hwn e.e. drwy amddiffynfeydd rhag llifogydd.

2.4.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Sicrhau bod pob teulu ym mhob cymuned, pa faint bynnag o fodd sydd ganddynt, yn gallu fforddio cartref teilwng.
- Sicrhau y cynllunnir defnydd tir ffisegol er mwyn adlewyrchu anghenion.
- Gwella'r amgylchedd ffisegol.
- Mynediad at yr amgylchedd naturiol.

Mae'r Adran yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a chysylltir y rhain â'u cynllun gweithredu:

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a thirwedd. Mae'r Cyngor yn dilyn fframwaith polisi ac mae ganddo amcanion a thargedau allweddol a bennir bob blwyddyn gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

2.5 Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd

Mae gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd i gyd rolau sy'n cynorthwyo i ddarparu system iechyd o'r radd flaenaf ac i hybu iechyd a lles yng Nghymru. Gyda'i gilydd, maent yn gyfrifol am ariannu, am lunio polisi gofal iechyd a pholisi iechyd cyhoeddus, am adolygu, arolygu, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a rheoleiddio darpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol, gofal oedolion a gofal plant ac am ddarparu cymorth a chyngor, grantiau a gofal gwirfoddol yn y gymuned.

2.5.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Galluogi gwelliannau o ran tegwch mynediad ac o ran y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a dylanwadu ar hynny drwy sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn rhan o brif ffrwd cynllunio strategol a datblygu'r gweithlu.
- Gwella iechyd a lles holl bobl Cymru.
- Gwella'r canlyniadau i blant a'u teuluoedd sy'n rhan o achosion teulu dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Adran yn gweithio ochr yn ochr â'r arolygiaethau canlynol a chysylltir y rhain â'u cynlluniau gweithredu:

Mae Cyngor Gofal Cymru yn gweithio gyda Gwasanaeth au Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd. Mae'n hyrwyddo safonau uchel ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn gwella mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ei nod yw sicrhau bod y 150,000 o blant ac oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol ar unrhyw adeg yng Nghymru yn gallu dibynnu ar weithlu sydd wedi cael hyfforddiant a chymwysterau priodol ac sy'n cael ei reoleiddio'n effeithiol.

Mae Arolygiaeth Iechyd Cymru yn gyfrifol am gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i'r gofal a ddarperir gan GIG Cymru gydag arian y GIG. Mae'n rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd a diogelwch gofal a ariennir gan y GIG yng Nghymru ynghyd â chefnogi'r broses o'i wella'n barhaus.

2.6 Yr Adran Dreftadaeth

Nod yr Adran Dreftadaeth yw datblygu gwasanaethau sy'n rhoi cyfle i bawb fwynhau'r profiadau diwylliannol a hanesyddol cyfoethog ac amrywiol y mae gan Gymru i'w cynnig a chael budd ohonynt. Mae'r Adran yn hybu twristiaeth hefyd.

2.6.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Annog pob grŵp i gyfrannu at natur diwylliant y Gymru gyfoes a llunio'r diwylliant hwnnw.
- Cynnig cyfleoedd i bob grŵp a chymuned yn y gymdeithas fanteisio'n fwy ar weithgareddau diwylliannol, a hybu a gwarchod diwylliant sy'n dathlu amrywiaeth Cymru a'i thraddodiadau lu.

2.7 Yr Adran Adnoddau Dynol

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cynnig ystod o wasanaethau i'n staff, gan gynnwys darparu hyfforddiant a datblygiad, recriwtio mewnol ac allanol, rheoli perfformiad, Iechyd a Diogelwch, iechyd galwedigaethol, cyflogau a phensiynau.

2.7.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Newid ein hymddygiad er mwyn creu diwylliant cynhwysol, gan fod yn hyderus yn ein hamrywiaeth ein hunain.
- Sicrhau bod atebolrwydd clir a thryloyw dros sicrhau amrywiaeth.
- Datblygu systemau sy'n galluogi pawb i wireddu eu potensial.
- Bod â gweithlu sy'n symud at gynrychioli poblogaeth Cymru.

2.8 Yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad

Mae'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn cefnogi prif agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer newid, integreiddio, a datblygu perfformiad ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

Y nod yw rhoi dinasyddion wrth wraidd cynllunio gwasanaethau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ansawdd, sicrhau mynediad, a chanlyniadau - ac mae'r disgwyliadau hynny'n prysur godi. Mae'n rhaid i fwy a mwy o wasanaethau, a'r rheini'n rhai sy'n perfformio'n well, bontio'r ffiniau rhwng darparwyr traddodiadol er mwyn bod yn effeithiol, a hynny'n anad dim ym maes cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Rôl yr Adran yw galluogi darparwyr i gyflawni'r her hon.

2.8.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Datblygu model sy'n canolbwyntio ar ddinesydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi sylw i anghenion pob dinesydd yng Nghymru.

Mae'r Adran yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac fe'i cysylltir â'u cynllun gweithredu:

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn is-adran yn yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad ac mae'n gweithredu ar wahân. Ei rôl yw arolygu ac adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a rheoleiddio ac arolygu asiantaethau a lleoliadau gofal. Mae'n defnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2.9 Yr Adran Materion Gwledig

Mae'r Adran Materion Gwledig wedi ymrwymo i gynorthwyo ffermwyr i ddod yn fwy cynaliadwy o safbwynt economaidd, o safbwynt cymdeithasol ac o safbwynt yr amgylchedd. Mae'n helpu i hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r Adran yn cyflwyno Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru sy'n cynnig cymorth i ffermio, coedwigaeth, bwyd-amaeth ac adfywio cymunedol gwledig. Mae'r Adran hefyd yn rhoi cyngor ar faterion gwledig ehangach ac yn prawfesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad ar draws y Cynulliad.

2.9.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Sicrhau bod cynhwysiant yn bwrw gwreiddiau er mwyn darparu gwasanaeth cynaliadwy o safon i ddiwallu anghenion amrywiol pawb sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

2.10 Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gyfrifol am wella ac am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yng Nghymru, gyda phwyslais penodol ar ddiogelu a chefnogi pobl agored i niwed, brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb. Mae hefyd yn cynnig cymorth ac arian i lywodraeth leol wireddu'r amcanion hyn.

2.10.1 Blaenoriaethau'r cynllun gweithredu:

- Hyrwyddo Cyfiawnder Cymdeithasol drwy leihau effeithiau tlodi ar blant yng Nghymru.
- Cynorthwyo'r rheini sydd wedi'u gwthio i gyrion cymdeithas drwy wella cynhwysiant ariannol a sicrhau bod pawb yn gallu bod yn rhydd rhag tlodi.
- Hybu cymuned fwy cydlynol sy'n annog adfywio cymunedol, rhannu'r un gwerthoedd a lle bydd yr un cyfle i bawb ym mhob rhan o gymdeithas Cymru.
- Gwella'r mynediad at wasanaethau craidd i grwpiau sydd dan anfantais gan gynnwys y rheini sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig.